OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2197

# Rheoliadau Tir Halogedig(Cymru) 2001

**Apelau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

**9.**—(1) Rhaid i apêl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn erbyn hysbysiad adfer gael ei wneud drwy hysbysiad iddo ("hysbysiad apêl"), sef hysbysiad y mae'n rhaid iddo ddweud—

(a) enw a chyfeiriad yr apelydd;

(b) ar ba seiliau y gwneir yr apêl; ac

(c) a yw'r apelydd yn dymuno i'r apêl fod ar ffurf gwrandawiad neu gael ei phenderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig.

(2) Rhaid i'r apelydd, yr un pryd ag y mae'n cyflwyno hysbysiad apêl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru,—

(a) cyflwyno copi ohono i'r canlynol—

(i) Asiantaeth yr Amgylchedd;

(ii) unrhyw berson a enwir yn yr hysbysiad adfer yn berson priodol;

(iii) unrhyw berson a enwir yn yr hysbysiad apêl yn berson priodol; a

(iv) unrhyw berson a enwir yn yr hysbysiad adfer yn berchennog neu'n feddiannydd y cyfan neu unrhyw ran o'r tir y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef;

a chyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddatganiad o enwau a chyfeiriadau unrhyw bersonau sy'n dod o fewn paragraff (ii), (iii) neu (iv) uchod; a

(b) cyflwyno copi o'r hysbysiad adfer y mae'r apêl yn ymwneud ag ef i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac i unrhyw berson a enwir yn yr hysbysiad apêl yn berson priodol nad yw wedi'i enwi felly yn yr hysbysiad adfer.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) isod, os yw'r apelydd yn dymuno rhoi'r gorau i apêl, rhaid iddo wneud hynny drwy hysbysu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ysgrifenedig ac ymdrinnir â'r apêl fel un y rhoddwyd y gorau iddi ar y dyddiad y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael yr hysbysiad hwnnw.

(4) Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrthod caniatáu i apelydd roi'r gorau i'w apêl yn erbyn hysbysiad adfer pan ddaw'r hysbysiad gan yr apelydd yn unol â pharagraff (3) uchod i law Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw adeg ar ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru hysbysu'r apelydd yn unol â rheoliad 12(1) o addasiad arfaethedig i'r hysbysiad hwnnw.

(5) Pan roir y gorau i apêl, rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi hysbysiad y rhoddwyd y gorau iddi i unrhyw berson yr oedd yn ofynnol i'r apelydd gyflwyno copi o'r hysbysiad apêl iddo.